**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Llywodraeth Cymru

1 Rhagfyr 2022

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd 2022 i roi hysbysiad cynnar am y Rheoliadau uchod, y disgwylir iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 14 Rhagfyr 2022.

Byddem yn croesawu eglurhad o'r materion a ganlyn (gan gynnwys, pan fo'n briodol) lle y gellir canfod y wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol y rhagwelwn fydd yn cael ei osod ochr yn ochr â'r Rheoliadau ym mis Rhagfyr.

## Rhychwant tiriogaethol

Mae eich llythyr yn nodi y bydd y Rheoliadau'n gymwys yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Mae hefyd yn nodi bod "cydsynio i OS i'r DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd." Fodd bynnag, mae'r llythyr yn awgrymu na fydd Gogledd Iwerddon yn cael ei chynnwys o fewn rhychwant y Rheoliadau.

1. A fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon? Os felly, pa asesiad a wnaed ynghylch i ba raddau y gallai unrhyw ymwahaniad arwain at rwystrau masnach neu faterion iechyd cyhoeddus?

Rydych hefyd yn datgan bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gytûn ynghylch yr amcanion polisi, ac mai eich rhesymeg dros gydsynio i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig yw y byddai "gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad, a chymhlethdod diangen o'r llyfr statudau".

2. A yw Llywodraeth yr Alban yn cyflwyno ei Rheoliadau ei hun yn hyn o beth?

3. Dim ond yn Saesneg y gwneir rheoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU. Rhaid i reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru gael eu gwneud yn Gymraeg a Saesneg. I ba raddau y gwnaethoch ystyried a ddylai deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg wrth wneud eich penderfyniad ynghylch a ddylid cydsynio i'r Rheoliadau?

**Fframwaith Cyffredin ar gyfer Labelu Cyfansoddiad a Safonau sy’n Gysylltiedig â Maeth**

4. A gafodd y dull gweithredu DU ar y cyd ar gyfer y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy'r mecanweithiau a nodir yn Fframwaith Cyffredin ar gyfer Labelu Cyfansoddiad a Safonau sy’n Gysylltiedig â Maeth?

**Rhesymeg dros y diwygiadau**

5. Beth yw'r rhesymeg dros wneud y diwygiadau i'w nodi yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?

**Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

Pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn cael ei basio yn ei ffurf bresennol, yna oni bai yr achubwyd y Rheoliadau hyn naill ai gan Weinidogion y DU neu gan Weinidogion Cymru, byddent yn cael eu diddymu'n awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023.

6. Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau posibl Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) ar gyfer y Rheoliadau hyn?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 5 Ionawr 2023.

Yn gywir

Russell George

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

cc Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.